

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Innermost Secrets

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Tachwedd
2021

Dyddiad cyhoeddi: 15 Rhagfyr 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Innermost Secrets fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r clinig yn cynnig gofal beichiogrwydd wedi'i bersonoli i ddarpar famau ac amrywiaeth o wasanaethau iechyd i fenywod a dynion. Mae'r clinig yn cynnig gofal cynenedigol preifat, sganiau cynnar, profion ar gyfer Syndrom Down, sganiau bondio â'r babi 3D/4D, sgrinio ar gyfer cyneclampsia, genedigaeth gynnar a strep grŵp B, gwiriadau calon babanod newydd-anedig, gwasanaethau gynaeceleg cyffredinol, sgrinio iechyd menywod a dynion, a sgrinio geneteg ar gyfer canser etifeddol.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2011.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig, sydd hefyd yr unigolyn cyfrifol, ddydd Mercher 10 Tachwedd 2021, a darparodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau sydd wedi cael eu gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal?
- Sut mae'r clinig yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau agored i niwed / mewn perygl) gael mynediad i wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r clinig yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r clinig a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut mae'r clinig yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Tystysgrif Profi Golau Argyfwng
- Tystysgrif Profi Larwm Tân
- Tystysgrif Profi Diffoddwyr Tân
- Tystysgrif Arolygiad Weiards Sefydlog
- Tystysgrif Prawf Cyfarpar Symudol

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod y clinig yn hygyrch i bobl â phroblemau symudedd a defnyddwyr cadair olwyn, gyda lleoedd parcio gyfagos â'r brif fynedfa a mynediad gwastad i'r adeilad ac ystafelloedd mewnol. Mae lifft ar gael hefyd.

Dywedwyd wrthym fod y cyfleusterau toiled yn hygyrch a'u bod wedi eu dynodi'n ddefnydd unigol a niwtral o ran rhywedd.

Mae cowntsh hydrolog, y mae modd ei addasu, ar gael i helpu wrth gynnal sganiau uwchsain.

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau polisiâu a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig COVID-19.

Gwelsom fod asesiad risg iechyd a diogelwch cyffredinol wedi cael ei gynnal, a oedd yn cynnwys asesiadau o'r amgylchedd, cyfarpar, ac iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion sy'n ymweld â'r clinig.

Dywedwyd wrthym fod polisi cyfle cyfartal ac urddas ar waith a bod datganiad cydraddoldeb y clinig yn nodi ymrwymiad i ddiddymu rhwystrau i gael mynediad i wasanaethau. Mae'r clinig wedi'i gofrestru gyda Stonewall¹ fel rhan o'i raglen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Gweithle, fel y gall gymryd rhan yn ei Asesiad Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle ar gyfer 2022. Mae'r staff hefyd wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth.

¹ <https://www.stonewall.org.uk>

Cawsom wybod bod y clinig yn rhoi sylw arbennig i gredoau diwylliannol a chrefyddol amrywiol ac yn darparu dull cynhwysol ar gyfer cynllunio teulu, beichiogrwydd a magu plant ar gyfer pobl LHDTC+. Mae'r cleifion hefyd yn cael eu cyfeirio i sefydliadau eraill sy'n gallu cynnig cymorth a chefnogaeth.

Gall cleifion ddod yng nghwmni partner cymorth neu ffrind (sy'n gyfyngedig i un ar hyn o bryd, yn unol â chanllawiau COVID-19). Cynigir hebryngwr i gleifion heb gwmni.

Dywedwyd wrthym fod gan y clinig fynediad i wasanaethau cyfieithu i gefnogi amrywiaeth o ieithoedd gwahanol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Contract glanhau
- Amserlenni glanhau
- Polisi rheoli gwastraff
- Arweiniad ar arferion atal heintiau da wrth ddefnyddio gel uwchsonig
- Gweithdrefn niwed oherwydd nodwyddau
- Asesiad risg COVID-19
- Adnodd asesu risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu
- Polisi a gweithdrefnau rheoli ac atal heintiau
- Polisi atal a rheoli heintiau sy'n benodol i COVID-19
- Asesiadau risg staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau rheoli ac atal heintiau cynhwysfawr ar waith wedi'u hategu gan asesiadau risg cadarn. Defnyddir Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan² a chawsom wybod bod asesiadau risg penodol i COVID-19 wedi cael eu cynnal yn ystod y pandemig yn unol â'r canllawiau diweddaraf. Mae tudalen fewnrwyd wedi cael ei sefydlu fel y gall unrhyw newidiadau gael eu rhannu'n gyflym gyda'r staff. Mae hyn hefyd yn galluogi staff i adolygu dogfennau wedi'u diweddarau a gweithdrefnau diwygiedig i sicrhau eu bod yn gyfredol. Mae'r dudalen fewnrwyd hefyd yn cynnwys ffurflen adborth sy'n galluogi staff i gyfleu unrhyw feysydd o bryder sydd ganddynt neu feysydd o ddiffyg cydymffurfio i'r rheolwr cofrestredig yn gyflym.

² <https://llyw.cymru/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu>

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym, er mwyn diogelu staff a chleifion, fod unrhyw gleifion sy'n dod i'r clinig yn gwneud hynny drwy gadw apwyntiad ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod yr holl gleifion yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19 yn ystod yr alwad ffôn gychwynnol i drefnu apwyntiad ac wrth gyrraedd y clinig. Gofynnir i gleifion aros yn y car nes ei fod yn glir eu bod yn gallu dod i'r adeilad ac yna bydd aelod o staff yn cymryd eu tymheredd ac yn eu helpu wrth ddiheintio dwylo a defnyddio masg wyneb. Caiff cleifion eu hatgoffa i gadw pellter cymdeithasol pan fo hynny'n briodol.

Dywedwyd wrthym fod ymgynghoriadau ar-lein wedi cael eu cyflwyno, pan fo hynny'n briodol yn glinigol, gan ddefnyddio systemau Heydoc³ a Zoom diogel,⁴ a bod prosesau nodi cleifion cadarn ar waith. Mae gwasanaethau a gynhelir gan fydwragedd hefyd yn cael eu cynnal o bell pan fo hynny'n briodol, er enghraifft wrth ddarparu cyngor ynghylch paratoi ar gyfer rhoi genedigaeth a bwydo ar y fron. Mae'r holl wasanaethau nad ydynt yn hanfodol, megis sganiau nad ydynt yn hanfodol, wedi cael eu hatal.

Dywedwyd wrthym fod yr holl ddodrefn a deunydd darllen ac ati nad ydynt yn hanfodol wedi cael eu symud a bod y seddi yn yr ardal aros wedi cael eu lleihau i'r hyn sy'n angenrheidiol yn unig.

Cwmni allanol sy'n glanhau'r clinig ac mae contract ffurfiol ar waith. Cawsom wybod, yn ogystal â'r amserlen lanhau arferol, a diheintio eitemau untro arferol, fod sesiynau glanhau ychwanegol wedi cael eu cyflwyno a bod system creu anwedd firwsleiddiol⁵ yn cael ei defnyddio i reoli heintiau amgylcheddol ar raddfa helaeth.

Mae'r rheolwr cofrestredig hefyd wedi cyflwyno gwiriad COVID-19 wythnosol ychwanegol i sicrhau cydymffurfedd arferol a goruchwyliaeth o amgylchedd y clinig. Gwneir hyn gan y rheolwr cofrestredig fore Sadwrn a chaiff unrhyw broblemau a nodir eu cyfleu i reolwr y clinig er mwyn iddo weithredu arnynt.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cael cyflenwadau cyfarpar diogelu personol digonol wedi bod yn hynod heriol ar adegau, yn arbennig ar ddechrau'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r gwiriadau ac archwiliadau wythnosol yn ffordd o sicrhau bod stociau digonol o gyfarpar diogelu personol ar gael yn y clinig ar bob adeg.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom ystyried a yw'r

³ Heydoc yw platfform cyfathrebu iechyd byd-eang ac arobryn sy'n cysylltu cleifion, yn unrhyw le, â meddygon, yn fyd-eang, at ddiben cyngor meddygol nad yw'n frys.

⁴ <https://zoom.us/>

⁵ Mae creu anwedd diheintio firwsleiddiol yn ddull o **ddiheintio ystafell** neu adeilad i waredu feirysau a bacteria ar yr holl arwynebeddau. Gwneir hyn fel arfer â thoddiant bioladdol a firwsleiddiol sydd wedi'i bwmpio drwy beiriant creu anwedd pwerus, gan lenwi ystafell neu adeilad cyfan.

trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o ddiben
- Canllaw i gleifion
- Adroddiad Rheoliad 28 yr unigolyn cyfrifol
- Amlinelliad o'r cwmni a rolau staff
- Polisi Meddyginiaethau
- Polisi Cydsyniad Gwybodus
- Tystysgrif gwybodaeth am y GIG
- Adroddiad digwyddiadau
- Rhaglen hyfforddiant staff a data hyfforddiant staff blynyddol
- Templed arfarniadau staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Perchennog Innermost Secrets, sy'n ymgynghorydd mewn obstetreg a meddygaeth y ffetws, yw'r unigolyn cyfrifol enwebedig a'r rheolwr cofrestredig. Caiff ei gefnogi yn ei rôl gan reolwr y clinig, pedwar sonograffydd,⁶ tair bydwraig ac arbenigwyr clinigol, pedwar cynorthwydd gofal mamolaeth, a dau weinyddwr swyddfa. Cawsom wybod nad oedd unrhyw swyddi gwag ar y pryd a bod achosion o salwch staff yn isel iawn.

Cawsom wybod hefyd bod y staff yn y clinig yn gallu gweithio drwy'r pandemig ac ni chafodd yr un ei roi ar ffyrlo. Roedd hyn yn bosib yn sgil staff yn gweithio'n hyblyg gyda pheth gweithio gartref, er bod gweithio gartref wedi bod yn gyfyngedig oherwydd natur y gwasanaeth.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Mae nifer o aelodau staff yn y clinig hefyd yn gweithio i'r GIG ac yn gallu cael mynediad i hyfforddiant drwy eu cyflogwr GIG yn ogystal â thrwy Innermost Secrets.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig.

Mae'r rheolwr cofrestredig wedi gweithredu proses rhestr wirio lywodraethu fisol arferol i fonitro diogelwch tân, goleuadau, cynnwys y blwch cymorth cyntaf, safon y glanhau, sicrhau bod y ffeil bolisi yn ei lle yn y dderbynfa, sicrhau bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn cael ei wneud, glanhau cyfarpar, a lefelau stoc cyfarpar diogelu personol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom fod yna system cefnogi ac arfarnu staff ffurfiol ar waith i'r aelodau staff hynny sy'n

⁶ Sonograffydd yw gweithiwr iechyd gofal sy'n arbenigo yn y defnydd o ddyfeisiau delweddu uwchsonig i greu delweddau diagnostig, sganiau, fideos neu gyfeintiau tri dimensiwn o ddata anatomi'r corff a diagnostig.

cael eu cyflogi gan y clinig yn unig. Yn achos yr aelodau staff hynny sydd hefyd wedi'u cyflogi gan y GIG, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn dibynnu ar y trefniadau arfarnu sydd ar waith yn y GIG. Fodd bynnag, ychwanegodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn profi anawsterau wrth gael mynediad i'r dogfennau arfarnu GIG sydd wedi'u cwblhau. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i gynnal ei broses arfarnu ei hun i'r aelodau staff hynny sydd hefyd yn cael eu cyflogi gan y GIG.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun Gwella

Lleoliad: Innermost Secrets Limited yn masnachu fel Innermost Healthcare

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sefydlu ei broses arfarnu mewnol ei hun i'r aelodau staff hynny sydd hefyd yn cael eu cyflogi gan y GIG.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 20 (2) (a)	Mae eisoes yn ofynnol i staff a chontractwyr annibynnol sydd hefyd yn cael eu cyflogi gan y GIG (a) gwblhau hunanddatganiad i ni fod eu harfarniad GIG a'u hyfforddiant gorfodol yn foddhaol ac yn gyfredol a (b) cymryd rhan yn ein proses arsylwi clinigol mewnol. Cam Gweithredu 1 I gryfhau'r uchod, byddwn yn adolygu ein dogfennau arfarnu ac yn cyhoeddi polisi a phrofforma arfarnu newydd. Cam Gweithredu 2 Byddwn yn sicrhau bod pob aelod o staff a phob contractiwr annibynnol yn cwblhau arfarniad gan ddefnyddio'r dogfennau newydd erbyn 10 Chwefror 2022.	Dr RB Beattie	10/02/2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Dr Robert Bryan Beattie

Dyddiad: 07 Rhagfyr 2021